

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd

<http://senedd.tv/cy/3286>

Dyddiad: Dydd Mawrth, 1 Rhagfyr 2015

Amser: 09.07 – 11.05

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Darren Millar AC (Cadeirydd) Mike Hedges AC Sandy Mewies AC Julie Morgan AC Jenny Rathbone AC Aled Roberts AC Andrew RT Davies AC (yn lle Mohammad Asghar (Oscar) AC) Alun Ffred Jones AC (yn lle Jocelyn Davies AC)
Tystion:	Langley Davies, South Wales Land Developments
Staff y Pwyllgor:	Fay Buckle (Clerc) Claire Griffiths (Dirprwy Clerc) Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol) Huw Vaughan Thomas (Swyddfa Archwilio Cymru) Alistair McQuaid (Swyddfa Archwilio Cymru) Nick Tyldesley (Prisiwr Dosbarth)



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

TRAWSGRIFIAD

[Trawsgrifiad o'r cyfarfod.](#)

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mohammad Asghar. Roedd Andrew R T Davies yn dirprwyo ar ei ran.

1.3 Esgusododd Jocelyn Davies ei hun o dan Reol Sefydlog 18.8. Dirprwyodd Alun Ffred Jones ar ei rhan.

1.4 Roedd Sandy Mewies am ddatgan buddiant fel aelod o Gomisiwn y Cynulliad ac nid oedd yn bresennol ar gyfer eitem 2.1 ac eitem 6.

1.5 Mae'r datganiadau o ddiddordeb a wnaed yn y cyfarfod ar 12 Hydref yn berthnasol i'r cyfarfod hwn.

1.6 Croesawodd y Cadeirydd Nur Saleh, o gwmni llywodraethu Global Partners, sy'n dysgu am weithrediad y Cynulliad Cenedlaethol.

2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

- 2.1 **Craffu ar Gyfrifon 2014–15: Llythyr gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad – Cynllun Ymadael Gwirfoddol (19 Tachwedd 2015)**
- 2.2 **Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio: Gwybodaeth ychwanegol gan Lambert Smith Hampton (23 Tachwedd 2015)**
- 2.3 **Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio: Llythyr gan y Prisiwr Dosbarth (24 Tachwedd 2015)**
- 3 Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio: Sesiwn dystiolaeth 6**
 - 3.1 Bu'r Pwyllgor yn holi Langley Davies, Cyfarwyddwr South Wales Land Developments Limited, fel rhan o'r ymchwiliad i Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio.
- 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:**
 - 4.1 Derbyniwyd y cynnig a chafodd ei ymestyn i gwmpasu eitem 1 ar gyfer y cyfarfod ar 8 Rhagfyr 2015.
- 5 Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law**
 - 5.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.
- 6 Craffu ar Gyfrifon 2014–15: Trafod yr adroddiad drafft**
 - 6.1 Oherwydd cyfyngiadau amser, nis cyrhaeddwyd yr eitem hon.
- 7 Blaenraglen waith: Trafod rhaglen waith y gwanwyn 2016**
 - 7.1 Bu'r Aelodau'n trafod y flaenraglen waith ar gyfer tymor y gwanwyn 2016 ond gofynnodd am ragor o fanylion am yr ymchwiliad posibl i Faes Awyr Caerdydd.